Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

9 Rhagfyr, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad cynnydd y CBC |
| AWDUR: | Dave Hole, Arweinydd Rhaglen Weithredu'r CBC |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Darparu cyd-destun i'r Aelodau ar rôl a swyddogaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC). Mae'r adroddiad yn edrych yn benodol ar y sefyllfa gorfforedig ar ôl trosglwyddo, a chynnydd gweithredu rhaglenni i gefnogi'r gwaith parhaus i sefydlu'r CBC.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Aelodau yn nodi'r sefyllfa gyd-destunol.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd corfforedig, mae'n bwysig bod y CBC yn cael diweddariad rheolaidd o'r rhaglen rheoli prosiect a chyflawni gweithredu sy'n cefnogi sefydliad y CBC. Mae hyn wedi cynnwys datblygu rhaglen aml-flwyddyn i gyflwyno gallu newydd yn dilyn proses benodi ffurfiol y Prif Weithredwr, tra'n cynnal momentwm a pharhau i gyflawni rhaglenni newid ar unwaith.

3.2 Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Aelodau mewn perthynas â'r cyd-destun y mae'r CBC yn gweithredu ynddo, y rhaglen weithredu bresennol a'r heriau ar gyfer y dyfodol. Mae'n bwysig i Aelodau ddeall y cyd-destun y mae'r CBC yn gweithredu ynddo i gynorthwyo gyda'u rolau, ac i gefnogi dysgu a datblygiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae gan y CBC statws gweithredu llawn, sy'n golygu y gall weithredu fel endid corfforedig, bod ganddo'r gallu i gyflogi pobl a bod ganddo'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol yn eu lle. Mae hyn yn darparu'r brif fframwaith llywodraethu a fydd yn galluogi i'r CBC weithredu fel awdurdod cyhoeddus ar draws ei holl swyddogaethau.

4.2 Mae'n i'r CJC gydymffurfio â'r un dyletswyddau cyffredinol â sefydliadau'r sector cyhoeddus gan gynnwys cydymffurfio â Chydraddoldeb a Hawliau Dynol, egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau Mesur y Gymraeg. Mae ganddo ddyletswydd statudol i gynhyrchu:

- Cynllun Datblygu Strategol
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae datblygu, monitro a gweithredu'r Cynlluniau hyn yn cael eu rheoli drwy is-bwyllgorau trafnidiaeth a chynllunio. Yn ogystal, mae gan y CBC y pŵer i wneud unrhyw beth a fydd yn gwella neu'n hyrwyddo lles economaidd y rhanbarth.

4.2. Golygodd penderfyniad y CBC ar 21 Mawrth 2025 i ymrwymo i Gytundeb Cyflawni a Chyllido bod rôl y corff Atebol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru (cyfrifoldeb am gyflawni a threfniadau ariannu) yn cael ei throsglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ynghyd â throsglwyddo'r staff a'r asedau ar 1 Ebrill. Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd wedi'i sefydlu i ymgymryd â'r gwaith hwn.

## 5. CYNNYDD I GEFNOGI'R GWAITH PARHAUS I SEFYDLU'R CBC

5.1. Cyn 1 Ebrill 2025 gwnaeth Rhaglen Weithredu'r CBC gynnydd sylweddol hyd at a chan gynnwys y trosglwyddiad sy'n digwydd. Rhai o'r prif uchafbwyntiau sydd wedi'u cyflawni oedd:

i. Penodiadau'r CBC (Cadeirydd, Is-gadeirydd, Prif Weithredwr Arweiniol, Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151)
ii. Trosglwyddo'r Cynllun Twf a'i gyllid
iii. Trosglwyddo grantiau
iv. Trosglwyddo staff y Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC drwy TUPE
v. Sefydlu'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, yr Is-bwyllgor Lles Economaidd a pharatoi i ddatblygu is-bwyllgorau pellach
vi. Mabwysiadu Cyfansoddiad a Rheolau Sefydlog
vii. Cyhoeddi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
viii. Buddiannau cychwynnol staff
ix. Polisïau staff
x. Gwefan y CBC
xi. Newidiadau system gaffael i'r CBC
xii. Trefniadau bancio newydd
xiii. Trefniadau polisi Yswiriant y CBC
xiv. Trefniadau system Cyflogres
xv. Strategaeth Rheoli Trysorlys

5.2. Roedd meysydd cymhleth yn cynnwys cymeradwyaethau llwybr cytundeb partner ar gyfer llofnodi cytundebau i drosglwyddo'r cynllun twf, amnewid ei gyllid, a throsglwyddo TUPE o'r staff Swyddfa Rheoli Portffolio, gan gynnwys galluogi swyddogaethau megis cyllid, AD, TG.

5.3. Yn dilyn y trosglwyddiad ar 1 Ebrill, datblygwyd rhaglen o newid yn seiliedig ar flaenoriaethau a rhai ffactorau cyfyngol. Mae'r rhaglen hon yn parhau i fod yn sylweddol, yn gymhleth ac yn ddwys o ran adnoddau. Penodwyd Prif Weithredwr newydd UGC ym mis Mehefin 2025 a bydd yn gweithredu fel yr Uwch Berchennog Cyfrifol sy'n atebol am drawsnewidiad parhaus y rhaglen. Mae crynodeb o'r rhaglen yn cynnwys:

**i. Swyddfa'r Prif Weithredwr**

i.a. Datblygu Cynllun Corfforaethol
i.b. Datblygu Prosbectws y CBC
i.c. Dylunio Sefydliadol (gan gynnwys datblygu)
i.d. Recriwtio adnoddau

**ii. Cyfreithiol a Llywodraethu**

ii.a. Datblygu'r llywodraethiant o amgylch yr Is-bwyllgor Lles Economaidd

ii.b. Mae pwyllgorau eraill sy'n cael eu datblygu yn cynnwys Trosolwg a Chraffu ar y Cyd a Safonau
ii.c. Sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth Ffurfiol (pob swyddogaeth) gyda Chyngor Gwynedd
ii.d. Adolygu'r cyfansoddiad a datblygiadau pellach
ii.e. Recriwtio adnoddau

iii. Technoleg Gwybodaeth a Digidol

iii.a. Gweithredu system rheoli pwyllgorau gyda chefnogaeth Gwasanaethau Democratiaeth
iii.b. Datrysiad gwe-ddarlledu newydd ar gyfer y CBC sy'n cefnogi'r Gwasanaethau Democratiaeth
iii.c. Datblygu'r wefan ymhellach
iii.d. Sefydlu Rheolaeth Dogfennau SharePoint

iv. Gweithrediadau'r CBC

iv.a. Ystod o bolisïau i'w datblygu a'u cyhoeddi er mwyn cwrdd â gofynion deddfwriaethol a chefnogi cynllunio corfforaethol
iv.b. Amnewid cytundebau caffael
iv.c. Cytuno ar brydlesi ac adnewyddu adeiladau newydd
iv.d. Recriwtio adnoddau

v. Cyllid

v.a. Sefydlu Rheoli Risg Corfforaethol
v.b. Cwblhau cytundebau ariannol
v.c. Proses archwilio
v.d. Adnewyddu yswiriant
v.e. Trosglwyddo pensiynau
v.f. Recriwtio adnoddau

vi. AD (Pobl)

vi.a. Wedi recriwtio a phenodi Prif Weithredwr
vi.b. Wedi lansio buddiannau pellach
vi.c. Polisi Tâl 2025/26 a 2026/27
vi.d. Wedi creu Telerau ac Amodau AD y CBC
vi.e. Partneriaethau cymdeithasol/Undebau Llafur

5.4. Ffactorau risg cyfyngol wrth ddatblygu ein rhaglen newydd yw:

i. Amodau marchnad i recriwtio adnoddau lle mae gofyn amdanynt i gefnogi cyflawniad y systemau, proses a pholisïau systemau
ii. Cyfyngiadau cyllideb y CBC
iii. Sicrwydd arian grant e.e. Cyfle a/neu fygythiadau datblygu prosbectws y CBC
iv. Cyfyngiadau a ffiniau Cytundeb Lefel Gwasanaeth
v. Ymgysylltu â phartneriaid a chefnogi meysydd datblygu allweddol er mwyn galluogi gwell llywodraethu'r CBC, e.e. pwyllgorau, cyfethol ac ati.

6. Er gwaethaf yr heriau a amlinellwyd, mae'r rhaglen yn parhau i wneud cynnydd. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

i. Penodi Prif Weithredwr

ii. Dechrau cam datblygu'r Cynllun Corfforaethol
iii. Dechrau cam datblygu risg corfforaethol
iv. Cyhoeddi Polisi Tâl 2025/26
v. Gweithredu pensiwn
vi. Dechrau proses recriwtio UGC mewn camau. Proses yn parhau.
vii. Derbyn cyllid grant Llywodraeth Cymru Blwyddyn 1 i ddatblygu capasiti a gallu ar gyfer UGC
viii. Lansio gwefan UGC
ix. Datblygiad rhanbarthol buddion staff yn dechrau ar gyfer cynnig CLG allan o sgôp
x. Dechrau datblygu polisi Adnoddau Dynol newydd UGC
xi. Adolygu cyfansoddiadol parhaus
xii. Trefniadau prydles adeilad yn agosáu at gwblhau
xiii. Comisiynu Adolygiad annibynnol Dylunio Sefydliadol
xiv. Datblygu Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Drafft
xv. Cyfarfod agoriadol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2025

6.1 Oherwydd heriau adnoddau a'r gofyn i flaenoriaethu cyflawni, mae rhai o'r isafbwyniau'n cynnwys:

i. Oedi wrth adolygu prosbectws CBC Llywodraeth Cymru
ii. Datblygu polisi (recriwtio ar hyn o bryd)
iii. Cwblhau cytundeb CLG i alluogi recriwtio capasiti adnoddau ychwanegol a chefnogi prosiectau / cynhyrchion sydd wedi'u dad-flaenoriaethu i symud ymlaen
iv. Recriwtio i UGC i alluogi capasiti adnoddau ychwanegol i gael eu recriwtio a chefnogi prosiectau/cynhyrchion sydd wedi'u dad-flaenoriaethu i symud ymlaen
v. Oedi wrth gaffael a gweithredu'r System Rheoli Pwyllgorau yn amodol ar ba mor barod yw pwyntiau iii a iv
vi. Oedi wrth gaffael a gweithredu gwe-ddarlledu yn amodol ar ba mor barod yw pwyntiau iii, iv a v
vii. Pwyllgorau sy'n weddill wedi'u gweithredu ac yn cyd-fynd â'r gallu o ran adnoddau a chytundeb ehangach y rhanddeiliaid. Safonau a Throsolwg a Chraffu ar y Cyd wedi'u gohirio tan 2026.
viii. Ymgyrchoedd recriwtio cychwynnol aflwyddiannus ar hyn o bryd yn oedi cynnydd megis denu ymgeiswyr ar gyfer y swydd Uwch Swyddog Caffael.

6.2 Mae datblygu rhaglen UGC newydd ar gyfer 2026/27 a map ffordd ar gyfer y blynyddoedd dilynol yn debygol o fwrw sawl prosiect ymlaen gan gynnwys:

i. Datblygu Prosbectws y CBC
ii. Nifer o feysydd polisi sydd i'w datblygu a'u gweithredu
iii. Gorffen recriwtio staff i UGC
iv. Cyngor Gwynedd i recriwtio staff sy'n weddill i gefnogi UGC (yn amodol ar gymeradwyo'r CLG)
v. System Rheoli Pwyllgorau
vi. Gwe-ddarlledu
vii. Gwelliannau cyfansoddiadol
viii. Newid swyddogaethol i Drafnidiaeth a Chynllunio

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Mae rhaglen weithredu'r CBC yn cael ei chefnogi gan ychydig o adnoddau cytundeb sydd wedi'u targedu at gefnogi gwasanaethau rheoli rhaglenni, cyfreithiol a democratiaeth. Bydd angen y capasiti hwn yn y tymor byr i ganolig yn ystod 2025/26 nes i'r CBC recriwtio adnoddau, sefydlogi a medru gyrru'r gwaith yn ei flaen heb y gefnogaeth hon.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu'r penderfyniad a geisir.

---

## ATODIADAU:

Dim

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol yn cefnogi datblygiad y CBC a'i lywodraethu.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Mae swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid yn parhau i ddarparu cymorth i hwyluso datblygiad pellach y CBC. Mae cyllidebau a gwariant y CBC a'r Cynllun Twf yn destun adolygiad rheolaidd, ac rwy'n hyderus bod y trefniadau ariannol yn gadarn."